

## **Adroddiad Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd**

---

### **Pwnc: Safonau'r Gymraeg: Adroddiad Blynyddol**

#### **Penderfyniad yn Ofynnol: Ydy**

#### **Argymhelliad :**

Argymhellir bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i'r Comisiynydd Iaith.

#### **1. Negeseuon Allweddol**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Blynyddol erbyn y 30<sup>ain</sup> o Fehefin bob blwyddyn, yn unol â Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio, ac mae copi o'r adroddiad hwnnw wedi'i atodi.

#### **2. Cefndir**

Ar y 30<sup>ain</sup> o Fedi 2015, cyhoeddodd y Comisiynydd Iaith Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn nodi Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy wrth gyflawni ei fusnes, a'r dyddiadau y mae'r Awdurdod yn gorfod cydymffurfio â'r Safonau.

#### **3. Ymgynghori**

Mae'r staff ar draws yr Awdurdod wedi cyfrannu at yr adroddiad, a hefyd mae'r Tîm Rheoli wedi adolygu'r adroddiad.

#### **4. Y Cyd-destun Polisi Strategol**

Mae'r wybodaeth a'r argymhelliad/ argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn gyson â dibenion statudol yr Awdurdod a'r cyd-destun polisi strategol a gymeradwywyd.

Mae hyrwyddo'r Gymraeg i gefnogi'r targedau cenedlaethol ar nifer y siaradwyr, a chymryd i ystyriaeth ein Strategaeth Iaith Gymraeg, yn un o ganlyniadau trawsbynciol yr Awdurdod, sy'n gysylltiedig â'i amcanion llesiant a'i ddyletswyddau ehangach fel sector cyhoeddus. Felly mae'r adroddiad yn dangos y modd y mae gwaith yr Awdurdod yn cyfrannu at y themâu cysylltiad a chymunedau.

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn dangos y modd y mae'r Awdurdod yn cyfrannu at genhadaeth Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol o ran treftadaeth ddiwylliannol, a'i bolisi o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a thafodieithoedd lleol.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed i gyflawni'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth yr Awdurdod ar Hyrwyddo'r Gymraeg.

## **5. Ystyriaethau Ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau adnoddau nac ariannol yn deillio o gymeradwyo'r adroddiad gan fod y Gymraeg yn thema drawsbynciol ar draws holl waith yr Awdurdod.

## **6. Ystyriaethau Risg a Chydymffurfiaeth**

Mae methu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn risg sylweddol, yn ariannol ac o ran enw da. Ar ben hynny, mae'r gallu i gyfathrebu a gwneud busnes â'r Awdurdod drwy gyfrwng y Gymraeg yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru y bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd erbyn 2050 (Cymraeg 2050).

## **7. Yr Effaith ar ein Dyletswyddau Sector Cyhoeddus**

### **7.1 Yr Asesiad Integredig wedi'i Gwblhau: Nac ydy**

### **7.2 Effeithiau ar Gydraddoldeb, Economaidd-Gymdeithasol, Iechyd a Hawliau Dynol**

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at waith yr Awdurdod o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ymgysylltu â phobl sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol ac angydraddoldeb o ran canlyniadau.

### **7.3 Effeithiau ar y Gymraeg**

Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn unol â safonau'r Gymraeg 158, 164 a 170. Mae'n tynnu sylw at waith yr Awdurdod o ran hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd i'w staff ddysgu'r iaith.

### **7.4 Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth ac Effeithiau Allyriadau Carbon**

Nid oes gan yr adroddiad unrhyw oblygiadau i fioamrywiaeth nac allyriadau carbon.

### **7.5 Effeithiau Nodau Llesiant i Gymru a'r 5 Ffordd o Weithio (Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy)**

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y modd y mae gwaith yr Awdurdod yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru, yn enwedig yr hyn sy'n ymwneud â Chymru â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg sy'n ffynnu.

## **8. Casgliad**

Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg.

## **9. Rhestr o'r Dogfennau Cefndir:**

[Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)

(Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Caroline Llewellyn, [carolinel@arfordirpenfro.org.uk](mailto:carolinel@arfordirpenfro.org.uk))

**AWDURDOD PARC  
CENEDLAETHOL ARFORDIR  
PENFRO**



**ADRODDIAD BLYNYDDOL  
SAFONAU'R GYMRAEG**

**Ebrill 2025 – Mawrth 2026**

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg  
hefyd

Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn ar ffurfiau eraill hefyd dim ond ichi ofyn.  
Cysylltwch â:

Y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Parc Llanion  
Doc Penfro  
SA72 6DY

E-bost: [carolinel@arfordirpenfro.org.uk](mailto:carolinel@arfordirpenfro.org.uk)

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar yr holl awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru, ynghyd â Gweinidogion Cymru, i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi ymrwymo'n llwyr i'r egwyddor o alluogi a chefnogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'u hiaith ym mhob agwedd o'u bywydau ac yn cydnabod ei gyfrifoldeb i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd hwn.

Nod yr Awdurdod yw galluogi ein staff a'n rhanddeiliaid i ddefnyddio'r iaith (Cymraeg neu Saesneg) y maent fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Safonau'r Gymraeg sy'n gosod y fframwaith cyfreithiol ac mae'r adroddiad hwn yn nodi sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau sy'n ofynnol o dan y Mesur hwnnw. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei fod wedi gwneud cynnydd ond bod gwelliannau i'w gwneud o hyd.

## 1. RHAGAIR/Y CEFNDIR

- 1.1 Golyga Safonau'r Gymraeg na ddylai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau beunyddiol.
- 1.2 Yn fras, mae pum maes o Safonau:
- **Cyflenwi gwasanaethau**, sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, caffael, a hunaniaeth gorfforaethol
  - **Llunio polisi**, sy'n canolbwyntio ar gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, a chymryd camau cadarnhaol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg
  - **Gweithredol**, sy'n canolbwyntio ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o ran staff yr Awdurdod a gweithgareddau mewnol
  - **Hybu**, sy'n canolbwyntio ar hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach
  - **Cadw cofnodion**, sy'n canolbwyntio ar gadw cofnodion ynghylch sut y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau a bennwyd.
- 1.3 Gosodwyd 170 o Safonau ar yr Awdurdod, a phennwyd dyddiad gweithredu cychwynnol o 30 Mawrth 2016. Mae rhestr lawn o'r [Safonau](#) y mae gofyn i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy ar ein gwefan ac ar ein mewnwyd ar gyfer staff.
- 1.4 Mae Safonau 158, 164 a 170 yn pennu bod yn rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Dyma'r degfed adroddiad blynyddol ers cyflwyno'r Safonau, ac mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.
- 1.5 Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod wedi ystyried yr adroddiad hwn a'i gyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gymeradwyo.

## 2. MATERION YN CODI YN YSTOD Y CYFNOD ADRODD

- 2.1 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi bod yn destun ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chwyn bod yr Awdurdod wedi methu â chydymffurfio â safonau 36, 81 a 52 gan nad oedd yn glir ym mha iaith y byddai taith gerdded dywys yn cael ei chynnal, bod y Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnal y daith gerdded dywys a bod testun Saesneg yn unig wedi'i ganfod ar elfen o wefan yr Awdurdod.
- 2.2 Cadarnhawyd y gŵyn a phenderfynodd Comisiynydd y Gymraeg bod yr Awdurdod wedi methu â chydymffurfio â'r tair safon. Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi cynllun gweithredu yn nodi'r camau fyddai'n cael eu cymryd

i sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod teithiau cerdded a bod teithiau cerdded Cymraeg yn cael eu hyrwyddo. Roedd hefyd yn ofynnol i sicrhau bod y testun oedd yn ymddangos yn Saesneg ar y wefan ar gael yn y Gymraeg. Mae'r gwaith o fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn yn parhau.

- 2.3 Gwnaed ail gŵyn hefyd i'r Comisiynydd, fodd bynnag, o ganlyniad i'r ymateb a roddwyd gan yr Awdurdod, ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad pellach.

### 3. SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU (SAFONAU 1 – 87)

- 3.1 I sicrhau bod yr holl staff yn gwybod am y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, rydym wedi dosbarthu canllawiau ar gyflawni gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan bob Arweinydd Tîm a Rheolwr ddyletswydd i sicrhau bod eu gwasanaethau yn cydymffurfio â'r gofynion, ac mae'r gofynion hyn wedi derbyn sylw mewn cyfarfodydd drwy gydol y flwyddyn.
- 3.2 **Gohebiaeth ac Ateb y ffôn (Safonau 1 – 22)**
- 3.2.1 Atebir gohebiaeth yn yr iaith y derbyniwyd yr ohebiaeth, tra bod gohebiaeth a anfonir at unigolion am y tro cyntaf yn ddwyieithog. Mae papur pennawd yr Awdurdod yn cynnwys y datganiad "Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg, a byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth Cymraeg yn y Gymraeg. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi".
- 3.2.2 Mae galwadau i brif rhif ffôn yr Awdurdod, ac i'r canolfannau, yn cael eu hateb yn ddwyieithog ac yn cael eu trin yn y Gymraeg, os dyna ddymuniad y person, lle bynnag y bo modd. Nodir ar Wefan yr Awdurdod bod croeso i alwadau yn y Gymraeg.
- 3.2.3 Mae gwirfoddolwr 'siopwr dirgel' wedi bod yn gwneud galwadau i brif rifau ffôn yr Awdurdod, a bydd canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio i gynorthwyo mewn sesiynau hyfforddiant.
- 3.3 **Cyfarfodydd (Safonau 24 – 36)**
- 3.3.1 Mae'r Awdurdod yn cynnal ei gyfarfodydd Awdurdod/Pwyllgor naill ai ar-lein neu fel cyfarfodydd aml-leoliad (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Awdurdod wedi parhau i gynnal prif gyfarfod yr Awdurdod yn ddwyieithog gyda chymorth cyfieithu ar y pryd, ac wedi ymestyn y ddarpariaeth honno i gynnwys y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae'n egwyddor sydd wedi'i sefydlu y gall unrhyw aelod. Rhoddir ystyriaeth i gynnal mwy o gyfarfodydd yn ddwyieithog, er ei bod yn egwyddor sydd wedi'i sefydlu y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am gael annerch Pwyllgor Rheoli Datblygu yr Awdurdod (yr unig gyfarfod lle caniateir siarad cyhoeddus) wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 3.3.2 Mae canllaw ynganu a recordiad cysylltiedig wedi'u cynhyrchu i gynorthwyo Cadeiryddion Pwyllgorau nad ydynt yn siarad Cymraeg i agor cyfarfodydd yr Awdurdod yn ddwyieithog.
- 3.3.3 Mae gwahoddiadau i'r cyfarfodydd ymgysylltu ar y Cynllun Datblygu Lleol, ac i'r sesiwn hyfforddi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, wedi gofyn i bobl a ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod fel y gellir darparu cyfieithu ar y pryd.

### 3.4 **Dogfennau, Ffurflenni a Deunydd Cyhoeddusrwydd (Safonau 37 – 51)**

- 3.4.1 Mae holl gyfathrebu cyhoeddus yr Awdurdod yn ddwyieithog gan gynnwys y papur O Lan i Lan, cyfathrebu â gwirfoddolwyr, a chylchlythyrau i grwpiau rhanddeiliaid.
- 3.4.2 Cyhoeddir pob polisi, strategaeth, adroddiad blynyddol a chynllun corfforaethol yn ddwyieithog ar [wefan yr Awdurdod](#), yn ogystal â'r [datganiadau i'r wasg](#).

### 3.5 **Y wefan, apiau a'r cyfryngau cymdeithasol (Safonau 52 a 55 – 59)**

- 3.5.1 Darperir ffigurau ar gyfer ymweliadau â'r gwe-dudalennau yn y tabl isod sy'n dangos cynnydd sylweddol ar 2024/25. Mae'r cynnydd hwn mewn ymweliadau â thudalennau Cymraeg yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffaith ein bod bellach yn hyrwyddo ein sianeli Cymraeg yn fwy gweithredol drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn wedi helpu i gynyddu dilynwyr ar y sianeli Cymraeg, sydd yn ei dro yn debygol o fod wedi arwain at fwy o ymweliadau â'r tudalennau Cymraeg.

Y nifer fu'n edrych ar ein gwefan fesul blwyddyn	Cymraeg	Saesneg
2025/26	22,557	1,332,259
2024/25	13,333	1,460,825
2023/24	10,698	1,340,919
2022/23	4,064	936,413
2021/22	5,583	1,096,366
2020/21	12,328	802,982

- 3.5.2 Mae tudalennau ar wefan yr Awdurdod a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu samplu gan 'siopwr dirgel' i glustnodi unrhyw rai nad ydynt yn cydymffurfio.

### 3.6 **Arwyddion a Hysbysiadau (Safonau 61 – 63 a 69 – 70)**

- 3.6.1 Cynhaliwyd archwiliad arwyddion fis Awst 2024. O ganlyniad, mae rhai arwyddion nad oeddent yn ddwyieithog wedi cael eu disodli. Mae angen mwy o waith i ddisodli'r arwyddion sy'n weddill.

### 3.7 **Gwasanaethau derbynfya (Safonau 64 – 70)**

- 3.7.1 O'r pedwar aelod o staff (2.6 cyfwerth ag amser llawn) ym mhrif dderbynfya'r Awdurdod, mae dau wedi bod ar gyrsiau dysgu Cymraeg ar lefel mynediad,

mae un wedi bod ar gyrsiau dysgu Cymraeg ar lefel canolradd, ac mae un yn siaradwr Cymraeg rhugl.

3.7.2 Mae posteri 'laith Gwaith' i'w weld ym mhob un o dderbynfeydd yr Awdurdod, ac mae staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo cortyn neu fathodyn i hysbysu'r cyhoedd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae dysgwyr Cymraeg yn gwisgo laniardau sy'n dwyn y geiriau "Dw i yn dysgu Cymraeg".

### 3.8 **Grantiau a Thendrau (Safonau 71 – 80)**

3.8.1 Mae'r Awdurdod yn gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, y Gronfa Gwyrddu Amaethyddiaeth a'r Cynllun Cysylltu'r Arfordir. Mae'r Canllawiau a'r ffurflen gais ar gyfer y cronfeydd hyn ar gael yn ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff gohebiaeth ei hateb yn newis iaith yr ymgeisydd. Mae unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar gael naill ai'n ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg a chaiff y ddwy iaith eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati. Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

3.8.2 Pan fydd y staff yn trefnu gwaith cyfalaf a ariennir gan grantiau ar gyfer ffermwyr sy'n siarad Cymraeg, maent yn ceisio dod o hyd i gontractwyr sy'n siarad Cymraeg lle bo modd.

3.8.3 Mae gwahoddiadau i dendro yn cael eu mewnbynnu'n ddwyieithog ar wefan GwerthwchiGymru, gyda'r geiriad canlynol wedi'i gynnwys: "Croesewir tendrau yn Saesneg neu'n Gymraeg. Ni fydd tendr a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg".

### 3.9 **Cyrsiau addysg (Safonau 84 ac 86)**

3.9.1 Nid yw'r Awdurdod yn cynnal cyrsiau addysg fel y cyfryw. Mae'r rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer 2025/26 yn darparu gweithgareddau/digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae pob ysgol/grŵp sy'n cymryd rhan yn gallu gwneud hynny yn eu dewis iaith.

3.9.2 Dros y 3 blynedd diwethaf, mae'r Awdurdod wedi arwain prosiect cydweithredol gyda'r 8 Tirwedd Ddynodedig yng Nghymru i ddatblygu adnoddau dysgu dwyieithog ar y Cwricwlwm i Gymru o dan faner Tirlun. Mae'r adnodd yn darparu deunydd dysgu helaeth i'r ysgolion a chynnwys cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr 8 Tirwedd Ddynodedig, gan gwmpasu ystod o bynciau a dulliau dysgu, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac mae'r adnodd ar gael drwy [wefan ddwyieithog bwrpasol](#).

3.9.3 Trefnwyd digwyddiad arbennig gydag ysgol yn un o Ganolfannau'r Awdurdod i ddatblygu Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg, lle bu'r plant yn canu caneuon Cymraeg. Hyrwyddwyd hyn drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

3.9.4 Cynhaliwyd 256 o sesiynau gydag ysgolion yn ystod y cyfnod adrodd (mae hyn yn cynnwys ysgolion o fewn a thu allan i Sir Benfro, Gwobr Dug Caeredin, Addysg Bellach a sesiynau Prifysgol), ac o'r rhain cynhaliwyd 31, sef 12.1% drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 1,118 o blant a phobl ifanc wedi mynychu'r sesiynau hyn; sef gostyngiad o 39% o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol. Roedd y sesiynau yn cynnwys teithiau cerdded Cwrs

Croeso i Ysgol y Preseli, a chymryd rhan yng Ngwyl Hirddydd Haf ar gyfer 5 ysgol cyfrwng Cymraeg a drefnwyd gan Gydlynnydd y Gymraeg Cyngor Sir Penfro a Menter Iaith. Cynhaliwyd 11 sesiwn ddwyieithog gydag ysgolion, gyda 935 yn cymryd rhan, a lle bo'n bosibl, mae sesiynau addysg eraill yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol. Cyflwynwyd gweminar i athrawon yn y Gymraeg, ac mae gweithdai dwyieithog wedi'u cyflwyno gydag athrawon sy'n gysylltiedig â'r prosiect Tirlun.

- 3.9.3 Cynhaliwyd 1,461 o weithgareddau a digwyddiadau (gan gynnwys sesiynau gwirfoddoli grŵp) yn ystod y cyfnod adrodd, a chynhaliwyd 412 ohonynt (28%) drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac roedd cyfran y sesiynau a gyflwynwyd yn y Gymraeg wedi cynyddu 1%. Roedd y rhain yn cynnwys teithiau cerdded yn y Gymraeg a gynhaliwyd yng Nghwm Gwaun, taith gerdded i ddysgwyr y Gymraeg a gynhaliwyd ym Marloes, a Pharcmon yn cynorthwyo yn y Gymraeg a gwybodaeth am fywyd gwyllt ar gyfer taith gerdded tywys/ diwrnod y celfyddydau yn y goedwig fel rhan o'r prosiect Hadau Gobaith, a sesiynau gwirfoddoli. Roedd 30,919 o bobl wedi mynychu'r sesiynau hyn; roeddent yn ymwneud yn bennaf â Phrofiad o Oes yr Haearn yng Nghastell Henllys a digwyddiadau yn Oriol y Parc. Mae'r canolfannau â llwybrau dwyieithog i gyfeirio pobl o gwmpas y safle yn ystod y flwyddyn, ac mae gan Caeriw fersiwn Gymraeg o'r sylwebaeth sain sy'n rhoi hanes Castell Caeriw a Thaith Sain am y Felin Lanw.
- 3.9.4 Mae Castell Henllys wedi parhau i gynnal Cân i Blant Penfro yn eu tip, a hefyd wedi cynnal sesiwn cerfio pwpenni a hwyluswyd yn y Gymraeg ar gyfer Cylch Meithrin.

## 4. SAFONAU LLUNIO POLISI (SAFONAU 88 – 97)

- 4.1 **Llunio polisiau, eu diwygio neu eu hadolygu (Safonau 88 – 90)**
- 4.1.1 Mae Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi'i gynnal ar gyfer [Cadarnhau'r Cyfarwyddyd arfaethedig o dan Erthygl 4\(1\) ar ddefnyddio tir am 28 diwrnod ar gyfer gwersylla, carafanau a/neu gartrefi symudol](#), gweler Atodiad C.
- 4.2 **Ymgynghoriad cyhoeddus (Safonau 91 – 93)**
- 4.2.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau canlynol ynghyd â holiaduron a gwahodd sylwadau ar yr effeithiau tebygol ar y Gymraeg a'r newidiadau y gellid eu gwneud i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol. Roedd y dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r fersiwn Saesneg yn nodi bod y ddogfen hefyd ar gael yn y Gymraeg.
- [Cynllun Datblygu Lleol 2 – Canllawiau Cynllunio Atodol](#)
  - [Dogfennau paratoadol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 3: Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ymgorffori'r Adroddiad Cwmpasu Asesiad](#)

[Amgylcheddol Strategol a'r Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft.](#)

4.2.2 Cafodd asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg eu cwblhau fel adran o fewn Asesiad Integredig ar gyfer

- Erthygl 4 (1) Cyfarwyddyd ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod a Chod Ymddygiad ar gyfer Sefydliadau Esempt
- Cynllun Datblygu Lleol 3 - Cytundeb Cyflawni
- Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Cyflawni Diwygiedig.
- Cynllun Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth Cei Cresswell
- Ffioedd Meysydd Parcio 2026
- Polisi Dim Hiliaeth Cymru

4.2.3 Fel rhan o bob ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnwyd cwestiynau penodol i geisio barn ar y materion a glustnodwyd fel rhan o'r Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

#### **4.3 Polisi ar Ddyfarnu Grantiau (Safon 94)**

4.3.1 Cynhaliwyd adolygiad o bolisi grantiau yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd a chanfuwyd bod y polisi yn gweithio'n dda, heb unrhyw broblemau wedi'u clustnodi.

#### **4.4 Ymchwil polisi (Safonau 95 – 97)**

4.4.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwil ar bolisiâu yn ystod y cyfnod adrodd.

## **5. SAFONAU GWEITHREDU (SAFONAU 98 – 144)**

#### **5.1 Polisiâu adnoddau dynol (Safonau 105 – 111)**

5.1.1 Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddarau nifer o bolisiâu'r Awdurdod, fodd bynnag mae'r holl bolisiâu staffio y mae'r Safonau'n ymwneud â hwy ar gael yn ddwyieithog.

#### **5.2 Y fewnwyd (Safonau 122 – 126)**

5.2.1 Mae'r ApGeiriaduron (geiriadur Cymraeg) ar gael ar bob ffôn yr Awdurdod.

5.2.2 Mae Hyb Cymraeg wedi'i greu, lle gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth a'r polisiâu ar y Gymraeg.

#### **5.3 Asesu sgiliau iaith Gymraeg y staff (Safon 127)**

5.3.1 Gofynnwyd i'r holl staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar system adnoddau dynol yr Awdurdod. Mae'r lefelau sgiliau a ddefnyddiwyd bellach yn seiliedig ar y fframwaith cymhwysedd iaith (CEFR):

##### Lefel

- Mynediad
- Sylfaen
- Canolradd

- Uwch
- Hyfedr

5.3.2 Ar 31 Mawrth 2026 roedd yr Awdurdod yn cyflogi 190 o staff, ac roedd 163 ohonynt (85.8%) wedi cwblhau eu data sgiliau iaith:

Lefel	Nifer	Canran
Mynediad	105	63.25
Sylfaen	16	9.64
Canolradd	14	8.43
Uwch	12	7.23
Hyfedr	19	11.45

5.3.3 Mae'r tabl uchod yn dangos bod 30% o'r staff yn ystyried eu hunain ar lefel ganolradd neu uwch. Bernir bod yr Awdurdod, ar y cyfan, yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau i'r cyhoedd o ran darparu gwasanaeth dwyieithog. Pan fydd swyddi yn dod yn wag, fe'u hasesir o ran gofynion ieithyddol (gweler paragraff 5.5). Yn y cyfamser, anogir staff i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg i ddatblygu neu i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

5.3.4 Mae archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg i glustnodi anghenion a sgiliau iaith pob tîm wedi'i gynnal, a bydd hyn yn cryfhau ymhellach strategaeth cynllunio iaith yr Awdurdod.

5.3.5 Mae 18 Aelod yn gwasanaethu ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac maent wedi hunanasesu eu sgiliau iaith Gymraeg fel a ganlyn:

Lefel	Nifer	Canran
Mynediad	2	
Sylfaen	1	
Canolradd		
Uwch	1	
Hyfedr	3	
Dim sgiliau	2	

#### 5.4 **Cyrsiau iaith Gymraeg (Safonau 130 – 133)**

5.4.1 Mae adolygiadau Lles a Datblygiad yn cael eu cynnal gyda phob aelod o staff, lle clustnodir yr angen (neu'r cyfle) i ddysgu Cymraeg. Cefnogir unrhyw aelod o staff sydd am fynychu cwrs dysgu Cymraeg yn ystod amser gwaith. Mae nifer o staff wedi derbyn hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith. Mae nifer o staff wedi derbyn hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith.

5.4.2 Darperir hyfforddiant i ennyn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein i bob gweithiwr newydd fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Roedd 19.25% o'r gweithlu wedi cwblhau cyrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith yn ystod y cyfnod adrodd.

5.4.3 Rhoddir cymorth yn ystod y cyfnod prawf o 6 mis i gynorthwyo'r staff i ennill y sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol.

- 5.4.4 Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd contract i gwmni iaith gynnal tair sesiwn ar ymwybyddiaeth iaith, yn bennaf i Reolwyr ac Aelodau'r Awdurdod. Roedd dau ddiben i'r gweithdai hyn: hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymhlith y staff, ac archwilio cyfleoedd pellach i'r Awdurdod ymgorffori a gwella'r modd o hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn ei weithgareddau.
- 5.4.5 Cynhaliwyd y tri gweithdy dwyieithog hanner diwrnod ar Ymwybyddiaeth iaith Feirniadol yn ystod mis Medi a mis Hydref 2025, a mynychwyd y gweithdai hyn gan 30 o gyfranogwyr. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau i'r Awdurdod, a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer yr adolygiad o Bolisi'r Awdurdod ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol a gynhelir yn ystod 2026-27.
- 5.4.6 Roedd aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar gyflwyno sesiynau Ymwybyddiaeth iaith Feirniadol, a bydd y sesiynau hyn yn cael eu cyflwyno ar draws yr Awdurdod yn ystod 2026-27.
- 5.4.7 Mae'r Prif Weithredwr wedi bod ar gwrs Academi Cymru ar "Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog", a byddwn yn datblygu cynllun i fwy o arweinwyr allu mynd ar y cwrs hwnnw.
- 5.5 **Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi gwag (Safon 136)**
- 5.5.1 Pan fydd disgrifiad swydd yn cael ei chreu neu ei diwygio, mae angen i reolwyr asesu gofynion ieithyddol y swydd gan ddefnyddio'r fframwaith iaith a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod. Defnyddir y ffactorau a ganlyn, ynghyd â'r fframwaith iaith, i bennu lefel y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd:
- (a) A fydd deiliad y swydd yn gweithio mewn maes lle mae angen darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg?
- (b) A yw'r Awdurdod yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn yn Gymraeg ar hyn o bryd?
- 5.5.2 Os yw'r ateb i (a) yn 'ydy' a (b) yn 'nac ydy', rhaid hysbysebu'r swydd fel un 'Cymraeg yn hanfodol' gan nodi'r lefel sgiliau sydd ei hangen. Os yw'r ateb i'r ddau gwestiwn yn 'ydy', rhaid i'r rheolwr egluro sut mae'r Awdurdod yn darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.
- 5.5.3 Nodir y gofynion hyn ar y ffurflen 'Cais i Lenwi Swydd' a gyflwynir i'r Tîm o Uwch Arweinwyr yr Awdurdod i'w chymeradwyo.
- 5.5.4 Hysbysebwyd 38 o swyddi yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd 3 ohonynt â'r Gymraeg yn hanfodol, 27 â'r Gymraeg yn ddymunol neu'n fanteisiol. Ym mhob achos, roedd y person a gafodd ei recriwtio yn cyfateb i'r sgiliau iaith Gymraeg oedd eu hangen.
- 5.5.5 Mae'r Awdurdod wedi cydweithio â chyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus i rannu arferion gorau o ran recriwtio siaradwyr rhugl yn y Gymraeg. Rydym bellach yn nodi manylion penodol y sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol yn y disgrifiad swydd e.e. cwrdd a chyfarch, mae Cymraeg llafar yn hanfodol, i egluro a oes hefyd angen sgiliau iaith ysgrifenedig yn y Gymraeg.

## 5.6 **Ffurflenni ymgeisio (Safonau 137A – 140)**

5.6.1 Mae gan yr Awdurdod broses ymgeisio ar-lein sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, fodd bynnag dim ond un cais a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffurflen yn gofyn i unigolion nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y broses gyfweld. Gwnaed un o'r cyfryw gais yn ystod y cyfnod adrodd.

5.6.2 Os yw'r ymgeisydd yn dymuno cael ei gyfweld yn Gymraeg, bydd y panel cyfweld naill ai'n cynnwys swyddogion sy'n siarad Cymraeg neu bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael. Os yw'r swydd a hysbysebir yn gofyn am sgiliau Cymraeg ond nad yw'r ymgeisydd – er ei fod wedi nodi ei fod yn medru'r Gymraeg – yn dymuno cael ei gyfweld yn Gymraeg, naill ai byddai Aelod o'r panel yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl neu byddai lefel gallu'r ymgeisydd i gynnal sgwrs yn Gymraeg yn cael ei brofi cyn y cyfweiliad.

## 5.7 **Arwyddion a godir yn y gweithle (Safonau 141 – 143)**

5.7.1 Polisi'r Awdurdod yw bod pob arwydd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn y fath fodd fel ei bod yn debygol o gael ei darllen gyntaf. Mae rheolwyr y Dderbynfa/Canolfannau wedi cael canllawiau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau hyn.

## 6. **SAFONAU HYBU (SAFONAU 145 – 146)**

### 6.1 **Strategaeth bum mlynedd ar gyfer y Gymraeg**

6.1.1 Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu [Aseiad o Strategaeth y Gymraeg 2017-2022](#) ac wedi mabwysiadu [Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028](#). Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu i roi'r camau gweithredu ar waith yn y flwyddyn sydd i ddod, ac mae'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn monitro'r camau gweithredu a nodir yn y strategaeth.

6.1.2 Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â thîm yr Eisteddfod a'r grwpiau lleol yn y paratodau i gynnal eisteddfod y Garreg Las ar gyrion y Parc Cenedlaethol yn 2026. Yr Awdurdod fydd yn rhoi'r Gadair yn yr eisteddfod. Yn ogystal, mae Pecyn Addysg sy'n rhoi'r manylion am y Gadair yn cael ei baratoi fel rhan o'r cynllun Tirlun (gweler 3.9.2 uchod).

6.1.3 Lanswyd prosiect i ddatgelu a gwarchod enwau lleoedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol fis Ionawr 2026. Yn cael ei redeg mewn partneriaeth â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, bydd y prosiect yn casglu gwybodaeth leol gan gymunedau ar draws y Parc drwy gynnal cyfres o weithdai ac yn cofnodi enwau caeau, llwybrau troed, adeiladau a lonydd yn Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru.

## 7. SAFONAU CADW COFNODION (SAFONAU 147 – 154)

### 7.1 **Cwynion a gafwyd (Safonau 147 – 149)**

- 7.1.1 Ni dderbyniodd yr Awdurdod unrhyw gwynion yn uniongyrchol ynghylch y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, derbyniwyd cwyn a gafodd ei chadarnhau gan Gomisiynydd y Gymraeg (gweler adran 2 uchod).

### 7.2 **Safonau Lluio Polisiâu (Safon 150)**

- 7.2.1 Gweler Adran 4 uchod am y modd y mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r Safonau Lluio Polisi.

### 7.3 **Sgiliau iaith Gymraeg (Safon 151)**

- 7.3.1 Gofynnwyd i'r holl staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar system adnoddau dynol yr Awdurdod (gweler 5.3 uchod). Fel y nodwyd ym mharagraff 5.3.4, cynhaliwyd Archwiliad o Sgiliau iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, ac mae camau gweithredu wedi'u clustnodi i annog staff i ddatblygu ymhellach eu sgiliau iaith.

### 7.4 **Cyrsiau hyfforddi (Safonau 152)**

- 7.4.1 Anogir pob aelod o'r staff i ddysgu Cymraeg, ac roedd 19.25% o'r gweithlu wedi cwblhau cyrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith yn ystod y cyfnod adrodd. Mae cwblhau'r modiwl sylfaenol yn awr yn orfodol i bawb sy'n dechrau o'r newydd i'r Awdurdod.

### 7.5 **Asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag (Safon 153)**

- 7.5.1 Rhaid i bob cais i lenwi swyddi newydd neu wag gael ei ystyried gan y Tîm o Uwch Arweinwyr yr Awdurdod (gweler 5.5 uchod). Caiff yr ystadegau eu cofnodi ar system rheoli perfformiad yr Awdurdod a'u hadrodd i'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

### 7.6 **Categoreiddio swyddi newydd neu wag (Safon 154)**

- 7.6.1 Ceir ystadegau sy'n ymwneud â chategoreiddio swyddi newydd neu swyddi gwag ym mharagraff 5.5.4.

## 8. SAFONAU ATODOL (SAFONAU 155 – 175)

- 8.1 Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio â gyflwynwyd i'r Awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg i'w weld ar wefan yr Awdurdod.

- 8.2 Mae dogfen "[Safonau'r Gymraeg: Sylwadau a Chwynion](#)" ar gael ar wefan yr Awdurdod, ac mae dolen i'r ddogfen ar gael o dudalen Safonau Gwasanaeth yr Awdurdod. Yn y ddogfen honno, rhestrir y Safonau y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy, ynghyd â'r broses a ddilynir os bydd rhywun yn gwneud cwyn i'r Awdurdod am fethu yn y ddyletswydd honno.

## 9. MONITRO CYDYMFFURFIAETH

- 9.1 Prif Weithredwr yr Awdurdod, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am weithredu a monitro Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae unrhyw weithredu sy'n ymwneud â'r Safonau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Hefyd, mae pob Cyfarwyddwr, Pennaeth Gwasanaeth ac Arweinydd Tîm yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r Safonau ac mae hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i glustnodi fel canlyniad trawsbynciol drwy bob un o Gynlluniau Cyflawni yr Awdurdod.
- 9.2 Caiff yr Adroddiad Monitro Blynyddol ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w gymeradwyo cyn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.
- 9.3 Roedd Adroddiad Blynyddol 2025/26 yn cynnwys y camau gweithredu canlynol. Dyma'r modd yr ymdriniwyd â'r camau hynny yn ystod y flwyddyn.

Gweithredu	Allbwn/ Targed	Sylwadau ar statws/ cynnydd
Cynyddu nifer y staff all gyflawni gwasanaethau drwy gyfrwng Gymraeg drwy uwchsgilio/ cynyddu hyder y staff presennol, a drwy recriwtio wrth i swyddi ddod yn wag.	30% o'r staff yn asesu eu sgiliau yn y Gymraeg yn ganolradd neu'n uwch.  % y swyddi sy'n cael eu recriwtio yn unol â'r gofynion ieithyddol	Mae'r ddau darged hyn wedi'u cyflawni, gweler paragraffau 5.5.3 a 5.5.4 uchod.
Gweithio gyda phartneriaid, datblygu a chyflwyno rhaglen o gyfleoedd, cefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu Sgiliau Cymraeg.	Rhaglen o weithgareddau yn ei lle.  # cyfranogwyr mewn gweithgareddau a sesiynau Cymraeg.  Astudiaethau Achos ac Adborth o'r cyfleoedd.	Er bod cyfranogiad mewn sesiynau addysg Cymraeg wedi lleihau, mae cyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau wedi cynyddu ychydig (gweler paragraff 3.9.3). Bydd y gwaith yn y maes hwn yn parhau ac yn debygol o gael hwb eleni drwy'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag eisteddfod y Garreg Las fis Awst.
Sesiwn hyfforddi Aelodau ar Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg (Polisi 13) a defnyddio polisiau gosod lleol	Cyflwyno Hyfforddiant.  Penderfyniadau Aelodau.	Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLI 2 2024-2025 i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Hydref

<b>Gweithredu</b>	<b>Allbwn/ Targed</b>	<b>Sylwadau ar statws/ cynnydd</b>
cymunedau gwledig ar safleoedd eithriadau gwledig.		2025. Mae Dangosydd 5 yn cofnodi'r penderfyniadau a wnaed yn groes i Bolisi 13 y CDLI 2, sef y polisi ar y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod monitro, ni wnaed unrhyw benderfyniad ar gynigion oedd yn groes i'r polisi. Mae'r APC yn paratoi CDLI 3 newydd a bydd yn paratoi papur cefndir ar y Gymraeg ac yn ystyried dynodiad daearyddol o'r Ardaloedd Sensitif o ran yr Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno a'i drafod gyda'r Aelodau yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

9.4 Camau i'w cymryd yn ystod y flwyddyn:

<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Allbwn/ Targed</b>	<b>Amserlen</b>
Adolygu'r polisi ar Ddefnydd Mewnol o'r Gymraeg.	Y polisi diwygiedig wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Rheoli a'i gyhoeddi ar fewnwyd y staff.	Rhagfyr 2026
Darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau, a'r gweithdrefnau cwyno a disgyblu.	Cyflwyno hyfforddiant i'r Aelodau ac i'r staff.	Mawrth 2027
Paratoi papur cefndir ar yr iaith Gymraeg, gan ystyried dynodiad daearyddol o'r Ardaloedd Sensitif o ran yr Iaith Gymraeg o fewn Cynllun Datblygu Lleol 3.	Cyflwyno'r papur i Aelodau'r Awdurdod i sefydlu dulliau gweithredu yr Awdurdod.	Mawrth 2027
Creu rhwydwaith o Hyrwyddwyr y Gymraeg i hyrwyddo ac annog	Mae 35% o'r staff yn asesu eu sgiliau iaith Gymraeg fel rhai canolig neu uwch.	Mawrth 2027

<p>defnyddio'r Gymraeg o fewn y gweithlu ac mewn gweithgareddau a digwyddiadau a gynhelir gan y staff ar draws yr Awdurdod.</p>	<p>Astudiaethau Achos ac Adborth o'r cyfleoedd a gynigir.</p> <p># cyfranogwyr mewn gweithgareddau a sesiynau cyfrwng Cymraeg</p> <p>Astudiaethau Achos ac Adborth o'r cyfleoedd a gynigir.</p>	
---	---	--